Annwyl Riant/Ofalydd,

Gobeithio eich bod chi a'ch teulu yn parhau i fod yn ddiogel ac yn iach.

Yn ôl yr addewid, gweler isod yr wybodaeth ddiweddaraf.

Mae ysgolion a'r Awdurdod Lleol yn parhau i gydweithio i sicrhau bod ysgolion yn cadw at holl ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan greu'r amgylchedd mwyaf diogel posibl i'ch plant wrth iddyn nhw barhau â'u haddysg.

Cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyd o ddiogelu rhag y feirws. Siaradwch â'ch plant am gadw eu pellter a golchi eu dwylo'n rheolaidd am o leiaf 20 eiliad.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu pum gorchudd wyneb y gellir eu hailddefnyddio ac y gellir eu haddasu ynghyd â bag plastig ar gyfer storio i bob aelod o staff ysgol. Rydyn ni hefyd wedi darparu'r rhain i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

Mae ysgolion uwchradd yn atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio gorchuddion wyneb ac yn argymell yn gryf eu gwisgo nhw yn ystod bywyd pob dydd, lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr ac ar gludiant ysgol.

Atgoffwch ac annog eich plentyn i'w gwisgo nhw yn y sefyllfaoedd hyn. Fodd bynnag, cofiwch na all rhai disgyblion wisgo gorchuddion wyneb oherwydd rhesymau meddygol neu resymau personol eraill.

Bydd y canllawiau hyn a mesurau argymelledig eraill yn parhau i gael eu hymgorffori yn y diwrnod ysgol ynghyd ag addysgu disgyblion am y feirws a'u hannog nhw i gadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y pandemig hwn. Rydyn ni hefyd yn gofyn i oedolion gadw at y canllawiau, a'u hatgyfnerthu, gyda'u plant a chydweithio gyda ni i fynd i'r afael â'r feirws hwn a lleihau'r lledaeniad yn y Fwrdeistref Sirol.

Gofynnwn ni am gymorth pob rhiant a disgybl o ran dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol yn iard yr ysgol, y tu allan i gatiau'r ysgol ac wrth safleoedd bysiau. Dim ymgynull os gwelwch yn dda.

Nid yw'n ofynnol gwisgo gorchuddion wyneb mewn ysgolion cynradd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Gellir gweld cyngor Llywodraeth Cymru ynghylch defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion ar ei gwefan:-

- Y Grŵp Cyngor Technegol - Gorchuddion wyneb – https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-gorchuddion-wyneb-i-blant-phobl-ifanc-mewn-lleoliadau-addysg

- Llywodraeth Cymru – cyngor diweddaraf ynghylch y coronafeirws – https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws

Mae ysgolion yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ffigurau presenoldeb cyfredol fel y gallwn ni dargedu a darparu ein cymorth i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli achosion positif posibl o coronafeirws, gan gynnwys staff glanhau ar y safle i gadw'r ysgol yn lân, cyflenwadau ychwanegol o gynhyrchion glanhau a mynediad uniongyrchol at gymorth a chyngor i sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn amgylcheddau diogel ar gyfer dysgu ac addysgu.

Rwy'n sylweddoli bod gennych chi, o bosibl, bryderon ynghylch aflonyddwch i addysg eich plentyn a byddwn i'n eich cynghori chii gydweithio gyda'ch ysgol i leihau effaith hyn.

Gweler isod siart lif a allai fod o ddefnydd i chi wrth ddeall y broses sydd angen ei dilyn os yw plentyn, aelod o'r teulu neu gyswllt agos yn dangos symptomau neu'n cael canlyniad positif mewn prawf COVID-19.

Siart lif i rieni (PDF) –

https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/Coronavirus/FlowChartParentsPrintWelsh

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud lleol a nifer yr achosion positif ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, rydyn ni wedi penderfynu parhau i ofyn i blant ddod â'u pecyn bwyd eu hunain tan hanner tymor. Bydd arlwyo nawr yn ailgychwyn ar ôl hanner tymor yn lle ar 1 Hydref 2020.

Bydd disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn parhau i gael prydau tan hanner tymor ar 23 Hydref 2020.

O ganlyniad i'r cynydd yn nifer yr achosion yn y Fwrdeistref Sirol, mae ysgolion yn adolygu ailgyflwyno clybiau brecwast ac yn gwerthuso eu hasesiadau risg unigol yn gyntaf i sicrhau bod modd cynnal y clybiau'n ddiogel. Byddaf i'n rhoi gwybod i chi am hyn yn fuan.

Mae'n braf gweld bod nifer yr achosion wedi'u cofnodi yn y Fwrdeistref Sirol wedi lleihau dros yr wythnos diwethaf. Fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i fod yn wyliadwrus ac rydyn ni'n hynod ddiolchgar am eich dealltwriaeth a chefnogaeth barhaus yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Cymerwch ofal.

Cofion

Keri Cole
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae rhagor o wybodaeth a chwestiynau cyffredin am ysgolion ar gael ar wefan Cyngor Caerffili: www.caerffili.gov.uk/Services/Coronavirus/School-and-classroom-

closures?lang=cy-gb